**CABINET**
**18 IONAWR 2022**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom ddydd Mawrth 18 Ionawr 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Derek Butler, Dave Hughes, Paul Johnson, Christine Jones, a Billy Mullin.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol , Swyddog Cynllunio a Datblygu ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd Patrick Heesom.

**YMDDIHEURIADAU:**
Dim.

**92. DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd dim.

**93. COFNODION**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2021 eu cyflwyno a'u cadarnhau'n gywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

**94. CYLLIDEB 2022/23 A SETLIAD DROS DRO LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad ac esboniodd bod y Cabinet wedi cael diweddariad ar 14 Rhagfyr yn dweud bod angen £20.696 miliwn yn ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Cafwyd y diweddariad hwnnw cyn derbyn Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru ar 21 Rhagfyr.

Rhoddodd adroddiad y Cabinet ddiweddariad am brif benawdau ac effeithiau ariannol y Setliad cyn cam olaf y broses o osod cyllideb ffurfiol ym mis Chwefror.

Byddai angen i'r gofyniad ychwanegol gynyddu'n sylweddol i gymryd i ystyriaeth yr angen i ddiwallu effeithiau'r holl faterion a nodwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys Dyfarniadau Cyflog / Cyflog Byw Cenedlaethol a pharhad mewn

costau ychwanegol a cholli incwm o ganlyniad i'r pandemig ar ôl i Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru ddod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2022.

Byddai angen i gyllideb gyfreithiol a chytbwys gael ei hargymell i'r Cyngor gan y Cabinet ar gyfer 2022/23 unwaith y byddai'r holl waith ar y materion a amlinellwyd yn yr adroddiad wedi'u cwblhau.

Roedd y dyraniad Cyllid Allanol Cyfun (AEF) yn darparu swm o £1,476 y pen o'i gymharu â £1,611 y pen ar gyfartaledd yng Nghymru, sy'n gosod y Sir yn safle 20 allan o 22 o gynghorau Cymru.

Am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, roedd setliad dros dro 2022/23 yn darparu dyraniadau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Er bod hynny'n cael ei groesawu, roedd yr ymgodiadau dangosol yn yr AEF o 3.5% a 2.4% ar gyfer 2023/24 a 2024/25 yn y drefn honno, yn llawer is na 2022/23 a byddai'n her sylweddol ceisio goresgyn effeithiau anochel yn gysylltiedig â chwyddiant a chynnydd yn y galw am Wasanaethau'r Cyngor. Gan hynny byddai'n hanfodol bod penderfyniadau a wneir fel rhan o gyllideb 2022/23 yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y sefyllfa tymor canolig, er mwyn datblygu gwytnwch i ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â phwysau anochel costau a fyddai'n codi yn y blynyddoedd dilynol.

Er mai Sir y Fflint oedd y chweched Cyngor mwyaf yng Nghymru yn ôl nifer y boblogaeth, roedd yn cyrraedd safle 20 allan o 22 yn seiliedig ar gyllid y pen. Pe bai Sir y Fflint yn derbyn yr un swm o gyllid y pen â'r cyfartaledd yng ngogledd Cymru, byddai'n derbyn £21 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol.

Barn Aelodau'r Cabinet oedd, os yw pethau fel Dyfarniadau Cyflog yn cael eu cyhoeddi'n genedlaethol, yna dylent gael eu hariannu yn genedlaethol.

Esboniodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol eu bod yn gweithio drwy effeithiau'r dyfarniadau cyflog, yn ogystal â'r cyllid grant unigol. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror cyn cyfarfod y Cyngor Sir yn y prynhawn.

Holodd y Cynghorydd Roberts a fyddai modd i lythyr gael ei anfon at Aelodau'r Senedd o ogledd Cymru i ofyn iddynt lobïo dros adfer y Grant Cynnal a Chadw Priffyrdd o £950,000, ar ôl cael cadarnhad ei fod wedi dod i ben.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi goblygiadau ariannol Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru a'r gwaith sydd ar ôl i'w gwblhau cyn cytuno ar gyfres o argymhellion i'r Cyngor i osod cyllideb gyfreithiol a chytbwys ym mis Chwefror.

---

## 95. ASESIAD O ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad a ddarparodd drosolwg o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 a oedd wedi'i gynnal yn unol â gofyniad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Roedd yr adroddiad yn asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth ac anghenion cymorth gofalwyr, a oedd yn cwmpasu ôl-troed gogledd Cymru. Datblygwyd y ddogfen dan arweiniad Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru, gyda gwybodaeth gan chwe chyngor gogledd Cymru a'r bwrdd iechyd, gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ym mis Mehefin 2022, mae'n rhaid i Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad gael ei gyhoeddi hefyd. Gyda'i gilydd, dylai'r ddwy ddogfen ddarparu darlun cynhwysfawr o'r galw a'r cyflenwad presennol a rhagamcanol i'r rheiny sy'n comisiynu gofal a chymorth ar lefel ranbarthol a lleol.

Pwysleisiodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) pa mor bwysig yw'r ddogfen a fyddai'n helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. O'r ymatebion i'r arolwg, roedd 39% yn dod gan bobl o Sir y Fflint felly roedd lleisiau lleol yn cael eu clywed. Byddai ymgysylltu â'r cyhoedd yn parhau yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio a Datblygu enghraifft o ble fyddai'r data yn helpu i gynllunio a pharatoi ar gyfer y dyfodol, sef atal dementia.

Ychwanegodd y Cynghorydd Jones yr ystod eang o feysydd a fyddai'n cael eu cwmpasu yn yr asesiad, gan gynnwys anghydraddoldeb a digartrefedd. Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru yn cael ei gefnogi cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Chwefror 2022; a

(b) Bod y broses ar gyfer cymeradwyo'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Ranbarthol yn cael ei chytuno.

## 96. MEINI PRAWF PÁS CERBYD I GANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF TŶ

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad ac esboniodd fod nifer o argymhellion wedi cael eu cyflwyno i'r Cabinet, yn dilyn dau seminar i'r holl Aelodau ym mis Medi 2021, ar newidiadau i'w gwneud i'r strategaeth wastraff bresennol fel bod y Cyngor yn gallu cyflawni cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2025.

Un argymhelliad oedd adolygu'r meini prawf ar gyfer cael pàs cerbyd i ganolfannau ailgylchu gwastraff tŷ, er mwyn egluro'n well i ddefnyddwyr pa fathau a meintiau o gerbydau a ganiateir a sicrhau nad yw masnachwyr yn cymryd mantais o'r system. Ail argymhelliad oedd y dylid cyflwyno system archebu ar gyfer ffrydiau gwastraff peryglus neu anodd er mwyn medru eu rheoli'n well wrth iddyn nhw gyrraedd y safle.

Cafodd y ddau argymhelliad eu cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Medi 2021, ond gofynnwyd am adroddiad arall er mwyn cael eglurhad pellach ynglŷn â sut y byddai'r newidiadau yn cael eu gweithredu. Roedd yr adroddiad hwn yn

gosod allan y Polisi Pàs Cerbydau diwygiedig ac yn cynnig meini prawf archebu ar gyfer gwaredu asbestos a matresi.

Esboniodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) bod y pwyntiau allweddol yn y Polisi arfaethedig ar gyfer Meini Prawf Pàs Cerbydau wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad. Ychwanegodd hi fod y system ganiatâd bresennol yn caniatáu, yn anfwriadol, i fasnachwyr a busnesau masnachol gamddefnyddio'r system a dod â ffrydiau gwastraff masnachol i mewn. Wrth i staff eu cwestiynu neu eu herio, roedd rhai o'r cwsmeriaid hynny yn troi'n ymosodol gan arwain at amgylcheddau gwaith amhleserus.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Polisi Pàs Cerbydau diwygiedig ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Tŷ; a

(b) Chymeradwyo'r meini prawf system archebu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Tŷ.

**97. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2021/22 (MIS 8)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad a oedd yn darparu'r wybodaeth fanwl ddiweddaraf am sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw yn 2021/22 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol. Cyflwynodd y sefyllfa o ran incwm a gwariant gwirioneddol, fel ag yr oedd ym Mis 8.

Roedd yr adroddiad yn rhagamcanu sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, heb gamau gweithredu newydd i leihau pwysau o ran costau a/neu wella'r elw ariannol ar gynllunio effeithlonrwydd a rheoli costau, sef:

**Cronfa'r Cyngor**

- Gwarged gweithredol o £0.716 miliwn (heb gynnwys effaith y dyfarniad cyflog NJC a fyddai'n cael ei dalu o gronfeydd wrth gefn), a oedd yn newid ffafriol o £0.061 miliwn ers ffigur y gwarged (0.655 miliwn) a adroddwyd ym Mis 7.
- Rhagwelid y byddai balans y gronfa wrth gefn at raid ar 31 Mawrth 2022 yn £6.586 miliwn.

**Y Cyfrif Refeniw Tai**

- Rhagwelid y byddai gwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn £0.548 miliwn yn uwch na'r gyllideb.
- Rhagwelid y byddai'r balans terfynol ar 31 Mawrth 2022 yn £3.924 miliwn.

Amlinellwyd manylion effaith Storm Christoph ar y gyllideb yn yr adroddiad a oedd yn gyfanswm o ryw £0.200 miliwn.

Esboniodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion am sefyllfa pob portffolio; amrywiadau arwyddocaol y mis hwnnw; faint o'r arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn a gafodd eu cyflawni; cyllid mewn argyfwng; cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi a chronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad a'r effaith ariannol a amcangyfrifir ar gyllideb 2021/22.

## 98. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad a oedd yn cyflwyno'r Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys drafft ar gyfer 2021/22 i'w gymeradwyo a'i argymell i'r Cyngor.

Fel sy'n ofynnol gan Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, roedd yr adolygiad hwn wedi cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Tachwedd a byddai'n cael ei adrodd i'r Cyngor ar 25 Ionawr 2022.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2021/22 yn cael ei gymeradwyo a'i argymell i'r Cyngor.

## 99. AIL ROWND CRONFA CODI'R GWASTAD

Cyflwynodd y Cynghorydd Butler yr adroddiad. Esboniodd fod y Gronfa Codi'r Gwastad yn cyfrannu at agenda codi'r gwastad Llywodraeth y DU trwy fuddsoddi mewn seilwaith a fyddai'n gwella bywyd bob dydd ledled y DU, gan gynnwys adfywio canol trefi a strydoedd mawr, uwchraddio cludiant lleol, a buddsoddi mewn asedau diwylliannol a threftadaeth. Bwriad y gronfa gwerth £4.8 biliwn oedd creu effaith weledol a diriaethol ar bobl a lleoedd a chefnogi adferiad economaidd.

Roedd yr adroddiad yn cynnig datblygu dau gynnig i'w cyflwyno i Lywodraeth y DU fel rhan o ail rownd y rhaglen a ddisgwylir ar ddechrau 2022. Cynigiwyd bod y cynigion yn canolbwyntio ar gymunedau arfordirol Sir y Fflint er mwyn: gwella amodau i fusnesau, lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; dod ag asedau treftadaeth yn ôl i ddefnydd; ac annog pobl leol ac ymwelwyr i ddefnyddio'r ardal arfordirol.

Er bod modd i bob awdurdod lleol wneud cais am gyllid Codi'r Gwastad, diben penodol y gronfa yw cefnogi buddsoddiad mewn lleoedd a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pob dydd, gan gynnwys hen ardaloedd diwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau arfordirol. Roedd Llywodraeth y DU wedi gosod awdurdodau lleol mewn categorïau 1, 2 neu 3 yn dibynnu ar lefel yr angen a nodwyd, gyda chategori 1 yn cynrychioli lleoedd yn yr angen mwyaf am fuddsoddiad. Roedd Cyngor Sir y Fflint wedi cael ei nodi fel awdurdod lleol 'categori 2'.

Roedd y Gronfa Codi'r Gwastad yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cais am hyd at £20 miliwn i bob etholaeth seneddol. Byddai cynigion uwch na £20 miliwn ac is na £50 miliwn yn cael eu derbyn ar gyfer prosiectau trafnidiaeth yn unig. Roedd disgwyl i'r ail rownd ddechrau yng ngwanwyn 2022. Roedd disgwyl i'r rhaglen ddod i ben ym mis Mawrth 2024 a oedd yn golygu fod y cyfnod i ddarparu prosiectau cyfalaf yn gyfyngedig iawn.

Esboniodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) mai'r bwriad oedd cyflwyno dau gynnig, un ar gyfer pob etholaeth seneddol. Byddai'r cynigion yn canolbwyntio ar gynnwys adfywio, diwylliant a threftadaeth. Roedd y Cyngor wedi penodi 'Mutual Ventures' i weithredu fel rheolwr prosiect y broses a chyfrannu at baratoi cynigion.

Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad ac roeddent yn dymuno pob llwyddiant i'r cynigion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) bod y bwriad i ddatblygu a chyflwyno cynigion ar gyfer Ail Rownd Cronfa Codi'r Gwastad yn cael ei gymeradwyo yn unol â'r cynigion a osodwyd yn yr adroddiad a

(b) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) ac Aelod Cabinet Datblygu Economaidd i newid a chyflwyno'r cynigion terfynol yn unol â'r cyfeiriad strategol a osodir yn yr adroddiad, datblygu ymyraethau penodol i adlewyrchu'r angen i gyflwyno cynigion cystadleuol a chyraeddadwy.

## 100. PARC ARFORDIR SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Cynghorydd Butler yr adroddiad ac esboniodd fod fframwaith strategol o gyfleoedd ar hyd blaendraeth aber Afon Dyfrdwy wedi'i gynhyrchu yn 2014. Roedd y cynnig ar gyfer parc arfordir yn ceisio nodi blaendraeth yr aber fel endid unigol tebyg i Barc Rhanbarthol.

Dylai'r cysyniad o Barc Arfordir Sir y Fflint gael ei archwilio eto yng ngoleuni'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag argaeledd Cronfa Codi'r Gwastad.

Byddai gwaith i ddatblygu Parc Arfordir Rhanbarthol i Sir y Fflint yn rhoi ysgogiad a ffocws newydd i'r arfordir, gan godi proffil y blaendraeth a galluogi cymunedau a busnesau i weithio'n gynaliadwy ac yn arloesol i helpu i ddarparu ffyniant amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Croesawodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad a dywedodd mai un mater allweddol yr oedd angen mynd i'r afael ag ef oedd y cyswllt coll yn llwybr yr arfordir rhwng Cei Connah a'r Fflint. Ar hyd ochr yr A548 roedd y rhannau mwyaf cul. Roedd cynigion wedi bod yn y gorffennol i ddatrys y broblem ond cawsant eu gwrthod ar y pryd gan RSPB a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, a oedd yn poeni y byddai'n tarfu ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Teimlai ef y dylai gwella'r llwybr rhwng Cei Connah a'r Fflint ffurfio rhan allweddol o'r cynigion. Roedd angen canfod datrysiad gydag RSPB a Chyfoeth Naturiol Cymru oherwydd bod gan yr ardal botensial i gael ei defnyddio ar gyfer cerdded, beicio a gweithgareddau hamdden. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n trefnu cyfarfod gyda'r cyrff cyhoeddus perthnasol i drafod y mater.

Roedd holl Aelodau eraill y Cabinet yn croesawu'r adroddiad, gan dynnu sylw at y dreftadaeth, gan gynnwys treftadaeth ddiwydiannol a chefn gwlad brydferth. Holodd y Cynghorydd Jones a fyddai "Porth y Gogledd" yn gallu cael

ei newid i ddarllen “Porth y Gogledd Sealand”. Teimlai’r Cynghorydd Hughes nad oedd Castell y Fflint yn cael ei hysbysebu’n ddigon da ac y dylai llwybr yr arfordir gysylltu â Dyffryn Maes Glas. Mewn ymateb i’r sylw hwn am y Castell, esboniodd Y Cynghorydd Roberts mai nod Llywodraeth Cymru oedd cael canolfan ymwelwyr a chaffi yn y Castell.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi’r cyfeiriad strategol a osodwyd ym Mhrosbectws Parc yr Arfordir a chefnogi’r gwaith i ddatblygu Parc Arfordir Rhanbarthol Sir y Fflint, a

(b) Bod y Cabinet yn croesawu barn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu’r Amgylchedd a’r Economi ac yn rhoi awdurdod dirprwyedig i’r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi), (mewn ymgynghoriad â’r Aelod Cabinet Datblygu Economaidd) i wneud newidiadau bach i’r cynigion er mwyn adlewyrchu’r farn honno.

## 101. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ECONOMI SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Cynghorydd Butler yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o amodau economaidd presennol y rhanbarth a’r Sir, gan ddefnyddio gwybodaeth o nifer o ffynonellau. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y strwythurau llywodraethu a oedd mewn lle i ymateb i adferiad economaidd a’r rhaglenni gwaith a oedd ar y gweill ar hyn o bryd.

Nid oedd effeithiau pandemig Covid-19 ac ymadawiad y DU o’r Undeb Ewropeaidd yn amlwg eto, ac roeddent yn dal i esblygu.

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth fanwl am Brexit; Covid-19; diweddariad economaidd; ystadau masnachol; ardrethi busnes; canol trefi ac ymatebion rhanbarthol a lleol.

Esboniodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi) bod hwn yn adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth yr oedd y Pwyllgor Adfer wedi gofyn amdano ac wedi’i groesawu. Ychwanegodd nad oedd cymaint o swyddi wedi’u dileu ar raddfa fawr ag y disgwylid yn dilyn Covid. Roedd lefel uchel o swyddi gwag ym meysydd nyrsio, gofal personol, gweithwyr gofal, cynorthwywyr cegin ac arlwyo, glanhawyr a gyrwyr faniau a oedd yn anodd eu llenwi.

Roedd y Prif Weithredwr yn croesawu’r adroddiad a oedd yn darparu asesiad cryf o’r economi. Diolchodd i’r swyddogion am yr adroddiad.

Croesawodd y Cynghorwyr Bithell a Johnson yr adroddiad gan ddweud fod Sir y Fflint wedi cael ei chrybwyll ym mhapur y Sunday Times. Dywedodd yr adroddiad fod Sir y Fflint yn mynd yn groes i’r duedd o ran adferiad a bod y ffigyrau wedi gwella ar y Mynegai Cystadleurwydd. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bithell, dywedodd y Prif Weithredwr fod trafodaeth wedi’i chynnal yn y Pwyllgor Adfer ynglŷn â sgiliau a chreu cyswllt gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC). Gofynnodd y Pwyllgor i gynrychiolydd o BUEGC fynychu cyfarfod yn y dyfodol i esbonio sut yr oeddent yn creu cyswllt â Sir y Fflint i yrru’r economi leol ymlaen.

**PENDERFYNWYD:**

Bod cynnwys a chasgliadau'r adroddiad yn cael eu nodi a'u cefnogi.

## 102. CRONFA MANTAIS GYMUNEDOL PARC ADFER

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad ac esboniodd, fel rhan o gaffaeliad y contract Parc Adfer a Phartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, cytunwyd ariannu a rheoli Cronfa Mantais Gymunedol a fyddai'n cael ei rhedeg am hyd y contract.

Roedd y Gronfa Mantais Gymunedol yn ymrwymiad trwy gontract rhwng yr Awdurdod ac Enfinium (Wheelabrator Technologies Inc gynt), ac roedd hefyd yn ymrwymiad trwy gontract i bob awdurdod partner unigol o fewn yr Ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau.

Hyd yma roedd y Gronfa Mantais Gymunedol wedi cael ei defnyddio i ariannu Cronfa Adferiad Cymunedol Parc Adfer i ddechrau, a oedd bellach ar gau i geisiadau. Mae wedi dyfarnu grantiau i dros 10 o brosiectau sydd wedi bod yn werth cyfanswm o dros £60,000. Amlinellwyd manylion y brif Gronfa Mantais Gymunedol, gan gynnwys prosiectau a meini prawf cymhwyso, yn yr adroddiad gan geisio cymeradwyaeth i lansio ar ddechrau 2022.

Byddai'r panel a'r trefniadau llywodraethu presennol, a sefydlwyd ar gyfer y Gronfa Adferiad Cymunedol, yn aros yr un fath yn bennaf ar gyfer y brif Gronfa Mantais Gymunedol pan fyddai'n cael ei lansio, yn ogystal â nifer o'r meini prawf cymhwyso cyffredinol. Fodd bynnag, byddai'r math o brosiectau a ariennir yn wahanol er mwyn adlewyrchu bwriad gwreiddiol y gronfa, sef ariannu prosiectau cymunedol a fyddai o fudd amgylcheddol i'r ardal leol.

Diolchodd y Cynghorydd i'r Rheolwr Prosiect, Steffan Owen, am ei holl waith ar y prosiect hwn.

Ar feini prawf y prosiect, esboniodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod 5 maen prawf, nid 6 fel y nodwyd yn yr adroddiad. Ar ôl cael cymeradwyaeth y Cabinet, byddai Cyd-bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn cael briffiad ynglŷn â'r canlyniad a'r meini prawf cymhwyso diwygiedig ar gyfer y Gronfa Mantais Gymunedol. Unwaith y byddai'r briffiad hwnnw wedi digwydd, byddai modd lansio'r Gronfa Mantais Gymunedol yn gyhoeddus trwy ddosbarthu datganiad i'r wasg, rhoi diweddariad ar wefan y Cyngor a anfon llythyr at randdeiliaid i'w hysbysu. Roedd disgwyl i hyn ddigwydd ar ddiwedd mis Chwefror / dechrau mis Mawrth 2022.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y prif feini prawf cymhwyso arfaethedig ar gyfer Cronfa Mantais Gymunedol y Parc Adfer yn cael eu cymeradwyo a bod lansiad arfaethedig y gronfa ar ddechrau 2022 yn cael ei gefnogi; a

(b) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd, i wneud newidiadau i'r dogfennau angenrheidiol

(e.e. nodiadau cyfarwyddyd) sy'n gynwysedig o fewn bwriadau a chanlyniadau dymunol y gronfa, a gwneud newidiadau bach i'r trefniadau llywodraethu (e.e. aelodaeth panel, cymorth swyddogion ac ati).

## 103. CYNLLUN GWASANAETH BWYD 2021-22 AR GYFER CYNGOR SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad ac esboniodd fod y Cynllun Gwasanaeth Bwyd yn darparu trosolwg o'r Gwasanaeth Bwyd yn unol â'r Cytundeb Fframwaith ar Reolau Bwyd a Phorthiant Swyddogol gan Awdurdodau Lleol Ebrill 2010. Roedd y cynllun yn nodi nodau ac amcanion y Gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, a sut y byddai'r rhain yn cael eu cyflawni.

Roedd Cynllun 2021-22 wedi cael ei oedi oherwydd y pwysau ar y gwasanaeth o ganlyniad i'r pandemig byd-eang, a hefyd oherwydd bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi bod yn hwyr yn cyhoeddi'r Cynllun Adfer.

Amlinellodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y prif gyflawniadau ar gyfer 2020-21, a'r targedau ar gyfer 2021-22.

Diolchodd yr Aelodau i'r tîm am y gwaith yr oeddent wedi'i wneud.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Cynllun y Gwasanaeth Bwyd ar gyfer 2021-22.

## 104. YMARFER PWERAU DIRPRWYEDIG

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Y rhain oedd y camau gweithredu dan sylw:

**Addysg ac Ieuenctid**

- **Llywodraethwyr Ysgol a Benodir gan Awdurdodau Lleol**
  Penodi cynrychiolwyr Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar gyrff llywodraethu ysgolion yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

**Tai ac Asedau**

- **Rhent y Cyngor – Cais i Ddileu Ôl-ddyledion Tenantiaeth**
  Mae Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (adran 5.2) yn nodi bod dyledion drwg a rhai na ellir eu hadfer sydd werth dros £5,000 yn cael eu hystyried i gael eu dileu ar y cyd â'r Aelod Cabinet perthnasol. Roedd y penderfyniad hwn yn ymwneud â dau achos ar wahân o ddileu ôl-ddyledion tenantiaid sy'n destun Gorchmynion Rhyddhau o Ddyled. Yn yr achos cyntaf, mae ôl-ddyledion rhent o £6,356.86 yn gynwysedig yn y Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled. Yn yr ail achos, mae ôl-ddyledion rhent o £9,361.53 yn gynwysedig yn y Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled. Nid yw'r ôl-ddyledion bellach yn adferadwy yn y naill achos na'r llall.

- **Gordaliadau budd-dal tai**

Mae Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (adran 5.2) yn nodi bod dyledion unigol drwg a rhai na ellir eu hadfer sydd werth dros £5,000 yn cael eu hystyried i gael eu dileu ar y cyd â'r Aelod Cabinet perthnasol. Mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â dileu ôl-ddyledion un cwsmer sy'n destun Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled. Mae'r Gordaliad Budd-dal Tai o £6,397.83 wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled na fyddai modd eu hadennill bellach o ganlyniad i roi'r Gorchymyn.

- **Gordaliadau budd-dal tai**
  Mae gennym ordaliad o £14,713.92 am y cyfnod rhwng 06.04.15 a 29.09.19. Mae'r gordaliad wedi'i gyfeirio at y gwasanaeth twyll ond maen nhw wedi'i anfon i'r gwasanaeth cydymffurfiaeth felly ni ellir ei drin fel twyll. Mae'r Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled bellach wedi'i dderbyn ac mae'n cynnwys ein dyled felly ni allwn adfer y gordaliad.

**<u>Swyddog Gweithredol</u>**

- **Diwygio Cynllun Grant Cist Gymunedol y Cyngor i Leihau'r Cyfyngiadau Amser a osodir ar Awdurdodau Lleol sydd am ail-ymgeisio am gyllid**
  Mae Grant Cist Gymunedol y Cyngor yn darparu grantiau hyd at £1,000 i sefydliadau cymunedol lleol sy'n bodloni meini prawf y grant. Ni all sefydliadau llwyddiannus ail-ymgeisio am grant newydd o fewn cyfnod o dair blynedd ariannol ar ôl derbyn grant o £1,000 gan y gronfa hon. Mae hyn wedi golygu bod rhai ceisiadau, a fyddai fel arall wedi bod yn llwyddiannus, yn cael eu gwrthod ar y sail hon er bod arian dros ben ar gael sydd heb ei ddyfarnu bob blwyddyn ariannol. Trwy leihau'r cyfyngiad amser i ddwy flynedd (dreigl) lle gall sefydliadau ail-ymgeisio am gyllid, bydd modd sicrhau bod cymorth ariannol amserol ar gael i sefydliadau a bod y gronfa yn cael ei dyrannu'n llawn bob blwyddyn ariannol.

**<u>Refeniw</u>**

- **Dileu Ardrethi Busnes**
  Mae'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau wedi eu hawdurdodi i ddileu dyledion rhwng £5,000 a £25,000. Mae'r ddyled Ardrethi Busnes sy'n gyfanswm o £17.428 ar gyfer Nite Stop Ltd, sy'n masnachu fel A55 Holiday Inn, yn anadferadwy ac mae wedi'i dileu gan fod y cwmni wedi cael ei ddiddymu a'i ddirwyn i ben ar 20 Gorffennaf 2021.

- **Dileu Treth y Cyngor**
  Mae'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau wedi eu hawdurdodi i ddileu dyledion rhwng £5,000 a £25,000. Mae tair dyled Treth y Cyngor sy'n gyfanswm o £16,910.49 yn anadferadwy, a byddant yn cael eu dileu.
  - Mae gan Achos 1 falans dyledus o £6,186.52 ac mae'r unigolyn atebol wedi mynd i ansolfedd - Trefniant Gwirfoddol Unigol
  - Mae Achos 2 am £5,119.49 ac mae'r unigolyn atebol wedi'i ddatgan yn fethdalwr ar 6 Awst 2021.
  - Mae gan Achos 3 falans dyledus o £5,604.48. Mae'r unigolyn atebol wedi marw ac nid oes arian yn ei ystâd i dalu'r dyledion hyn.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig o dan baragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**105. GWASANAETHAU PRESWYL, SEIBIANT BYR A THERAPIWTIG I BLANT A PHOBL IFANC YN SIR Y FFLINT**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad ac esboniodd bod disgwyl i'r contractau presennol ddod i ben ym mis Mawrth 2022 ac fel y cyfryw, byddai gofyn i'r gwasanaethau fynd allan i dendr cystadleuol er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau a'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r cynnig i ailgomisiynu'r Gwasanaethau Preswyl, Seibiant Byr a Therapiwtig i Blant a Phobl Ifanc yn Sir y Fflint yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau; a

(b) Bod pwerau dirprwyedig yn cael eu rhoi i'r Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) i arwyddo contract gyda'r darparwr llwyddiannus yn dilyn y broses gaffael.

**106. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 11.20 a.m.)

**…………………………..**
**Cadeirydd**